# Adroddiad Gwella Blynyddol 2014-15

# Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyhoeddwyd: Mehefin 2015
Cyfeirnod y ddogfen: 353A2015



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Colin Davies a Jeremy Evans o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Diben yr adroddiad hwn | 4 |
| Gwaith archwilio perfformiad 2014-15 | 5 |
| Mae'r Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd da yn ei feysydd blaenoriaeth ac mae'n gweithio i ymdrin ag amrywiaeth o faterion llywodraethu y tynnwyd sylw atynt mewn adroddiadau cyhoeddus yn ystod y flwyddyn | 6 |
| Penawdau – crynodeb o'r prif ganfyddiadau | 6 |
| Argymhellion | 9 |
| Adroddiad manwl | 10 |
| Y defnydd o adnoddau | 11 |
| Llywodraethu | 13 |
| Perfformiad | 16 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn | 24 |
| Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Cyngor Sir Caerfyrddin | 25 |
| Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad Cyngor Sir Caerfyrddin o berfformiad 2013-14 | 27 |
| Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol | 29 |
| Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15 | 32 |
| Atodiad 6 – Gwybodaeth ddefnyddiol am adnoddau'r Cyngor | 37 |

# Adroddiad cryno

## Diben yr adroddiad hwn

1 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru, ac asesu a fydd pob awdurdod yn cyflawni dyletswyddau statudol yn ymwneud â gwelliant parhaus[1]. Cyflawnwyd y gwaith hwn ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o fewn llywodraeth leol.

2 Yn ogystal, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal asesiad corfforaethol trylwyr ym mhob awdurdod ar sail gylchol (unwaith bob pedair blynedd o leiaf ar hyn o bryd). Yn y cyfamser, yn ogystal ag archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant, bydd Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn olrhain datblygiadau ac yn cyflawni gwaith asesu pellach sy'n canolbwyntio ar nifer o themâu allweddol, a ddatblygir mewn trafodaeth â phob awdurdod.

3 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yng Nghyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf o'r fath ym mis Gorffennaf 2014. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol o adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg. Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn y Cyngor gan gyrff adolygu allanol perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

4 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2014-15, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi, yn yr adroddiad hwn, a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2015-16.

5 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

6 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

1 Nodir dyletswyddau a gofynion ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

## Gwaith archwilio perfformiad 2014-15

7 Wrth bennu'r amrywiaeth o waith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried graddau'r wybodaeth archwilio ac arolygu a gasglwyd yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys systemau adolygu a gwerthuso'r Cyngor ei hun. Yn ystod 2014-15, gwnaethom gyflawni gwaith asesu gwelliant o dan dair thema: y defnydd o adnoddau; llywodraethu; a pherfformiad.

8 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y 'rheoleiddwyr perthnasol', isod:

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad byr |
|---|---|
| **Asesiad Cynllunio Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru** | Adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut mae'n cyllidebu ac yn cyflawni arbedion gofynnol. |
| **Archwiliad 'Cynllun Gwella' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** | Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella. |
| **Archwiliad o 'Asesiad o Berfformiad' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** | Adolygiad o asesiad o berfformiad cyhoeddedig y Cyngor, gan gynnwys profi a dilysu gwybodaeth am berfformiad. |
| **Adroddiad Blynyddol AGGCC** | Adolygiad Blynyddol o swyddogaeth Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. |
| **Llywodraethu a Pherfformiad – Tai** | Adolygiad o drefniadau llywodraethu, atebolrwydd a pherfformiad y Cyngor o fewn y Gwasanaethau Tai. |
| **Adolygiad o Ganlyniadau a Buddiannau Prosiect Trawsnewid, Arloesi a Newid** | Adolygu p'un a all y Cyngor ddangos bod ganddo'r canlynol:<br>• system gadarn ar gyfer nodi buddiannau tebygol prosiect Trawsnewid, Arloesi a Newid;<br>• proses ddibynadwy ar gyfer asesu dichonoldeb Prosiect Trawsnewid, Arloesi a Newid cyn iddo ddechrau; a<br>• dull cadarn ar gyfer asesu buddiannau prosiectau Trawsnewid, Arloesi a Newid. |
| **Asesiad o Berfformiad** | Adolygu p'un a yw dull y Cyngor o gyflwyno adroddiadau i'r cyhoedd ar ei berfformiad yn deg ac yn gytbwys. |
| **Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2013-2014** | Adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau y caiff hawliadau grant eu dogfennu'n briodol a'u llunio mewn modd cydgysylltiedig, cywir ac amserol. |

## Mae'r Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd da yn ei feysydd blaenoriaeth ac mae'n gweithio i ymdrin ag amrywiaeth o faterion llywodraethu y tynnwyd sylw atynt mewn adroddiadau cyhoeddus yn ystod y flwyddyn

9 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur yn ystod 2015-16. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a mae'r Cyngor wedi gwella ei berfformiad yn ei feysydd blaenoriaeth allweddol, mae wedi gwerthuso'r gwelliannau hyn ac wedi cyflwyno adroddiadau arnynt i'r cyhoedd mewn ffordd deg a chytbwys;

b mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor wedi bod yn effeithiol yn y gorffennol ac mae'r Datganiadau Ariannol yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a Chronfa Bensiwn Dyfed, ond, mae angen atgyfnerthu trefniadau'r Cyngor ar gyfer llunio a chyflwyno hawliadau grant o hyd;

c mae adolygiadau o ddau faes penodol o blith gweithgareddau'r Cyngor, sef Gwasanaethau Tai a'r Rhaglen Trawsnewid, Arloesi a Newid, wedi dangos enghreifftiau da o drefniadau llywodraethu cadarn gyda chyfraniadau priodol gan Aelodau a swyddogion; ac

ch ar ôl cyhoeddi dau adroddiad er budd y cyhoedd ym mis Ionawr 2014, ymgysylltodd y Cyngor mewn ffordd ragweithiol â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gynnal adolygiad cymheiriaid annibynnol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor: gan ymateb yn gadarnhaol, mae'r Cyngor wedi sefydlu grŵp trawsbleidiol i ymdrin â'r argymhellion ac i lywio newid diwylliannol, sydd, er megis dechrau, yn argoeli'n dda.

## Penawdau – crynodeb o'r prif ganfyddiadau

10 Mae'r tabl isod yn crynhoi canfyddiadau allweddol ein gwaith dilynol a'n gwaith monitro yn ogystal ag adroddiadau a gyhoeddwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf gan Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn a Chomisiynydd y Gymraeg.

| | |
|---|---|
| **Archwilio cyfrifon** | Cyhoeddodd yr archwilydd penodedig farn archwilio ddiamod ar y cyfrifon a rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am faterion allweddol i ymdrin â hwy ym mis Medi 2014 (gweler Atodiad 4). |
| **Archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant** | Gwnaethom gyhoeddi tystysgrifau yn nodi bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur (gweler Atodiadau 2 a 3). |

| | |
|---|---|
| **Y defnydd o adnoddau** | Mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor wedi bod yn effeithiol yn y gorffennol, ond caiff gallu'r Cyngor i ymateb i heriau ariannol ei lesteirio gan nad oes cysylltiadau amlwg rhwng y broses o gynllunio gwasanaethau a chynllunio ariannol a pherfformiad, ac ni chaiff y broses o gyflawni arbedion penodol ei monitro ac ni chyflwynir adroddiadau ar wahân arni.<br>Swyddfa Archwilio Cymru – Ebrill 2015.<br><br>Mae angen atgyfnerthu trefniadau'r Cyngor ar gyfer llunio a chyflwyno hawliadau grant o hyd; byddai hyn yn osgoi amlygu'r Cyngor i risgiau posibl o ran colli arian neu ffioedd archwilio uwch.<br>Swyddfa Archwilio Cymru – Mawrth 2015.<br><br>Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn unol â'r safon ofynnol neu'n uwch ac er bod gwariant wedi cynyddu, mae nifer y staff a gyflogir ym maes iechyd yr amgylchedd wedi lleihau, a bydd y Cyngor yn ei chael hi'n anodd ymgymryd â dyletswyddau statudol newydd sy'n diogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd.<br>Swyddfa Archwilio Cymru – Medi 2014. |
| **Llywodraethu** | Mae'r Cyngor yn ymdrin â gwendidau yn ei drefniadau llywodraethu:<br>Dau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru er budd y cyhoedd ar Gyflogau a Phensiynau Uwch Swyddogion, ac Indemniad ar gyfer Gwrth-hawliad Enllib: Ionawr 2014.<br><br>Un Adolygiad Cymheiriaid ar lywodraethu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru: Tachwedd 2014.<br><br>Mae'r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli ar gyfer goruchwylio p'un a yw'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau o ran diogelu plant yn ddigonol ar y cyfan ond gellid gwneud rhai gwelliannau.<br>Swyddfa Archwilio Cymru – Chwefror 2015.<br><br>Caiff Gwasanaeth Tai y Cyngor ei ategu gan fodel llywodraethu priodol a fframwaith rheoli perfformiad sefydledig, ond gellid defnyddio data am berfformiad mewn ffordd fwy gweithredol i ysgogi gwelliant.<br>Swyddfa Archwilio Cymru - mae'r adroddiad wrthi'n cael ei baratoi. |

| | |
|---|---|
| **Perfformiad** | Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth gyflawni ei weledigaeth o wasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig. AGGCC – Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013–14 Hydref 2014.<br><br>Mae rhaglen moderneiddio addysg y Cyngor wedi parhau i ysgogi gwelliant o ran adeiladau ysgolion.<br>Swyddfa Archwilio Cymru - Asesiad o Berfformiad, Chwefror 2015.<br><br>Mae'r Cyngor wedi parhau i gyflawni uchelgais allweddol ar gyfer yr amgylchedd.<br>Swyddfa Archwilio Cymru - Asesiad o Berfformiad, Chwefror 2015.<br><br>Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth wella ansawdd ei dai cymdeithasol.<br>Swyddfa Archwilio Cymru - Asesiad o Berfformiad, Chwefror 2015.<br><br>Mae gan y rhaglen Trawsnewid, Arloesi a Newid drefniadau llywodraethu cadarn, amcanion clir ac mae'n cyfrannu at ganlyniadau gwell ac arbedion ariannol; fodd bynnag, ceir cyfleoedd i atgyfnerthu achosion busnes, trefniadau rheoli risg, y defnydd o wybodaeth am berfformiad a gwaith dadansoddi ariannol.<br>Swyddfa Archwilio Cymru – Mai 2015.<br><br>Mae cyfle i'r Cyngor wella ei berfformiad wrth weinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn.<br><br>Gan ymateb i ostyngiad yn y defnydd o'r Gymraeg a nodwyd yng Nghyfrifiad 2011, mae'r Cyngor yn ceisio gwella'r defnydd o'r Gymraeg yn y sir.<br>Comisiynydd y Gymraeg - Ionawr 2015. |

## Argymhellion

11 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;

b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac

ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

12 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, cynhwysir cynigion ar gyfer gwella yn ein hadroddiadau eraill ond cyfeirir atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith asesu gwelliant.

13 Nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion newydd yn yr adroddiad hwn gan y byddwn yn cynnal asesiad corfforaethol llawn yn y Cyngor ym mis Hydref 2015. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ganfyddiadau'r gwaith hwn mewn Adroddiad Asesu Corfforaethol ac os bydd ein gwaith yn dynodi bod angen gwneud hynny, bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys argymhellion a chynigion ar gyfer gwella.

14 Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gwneud argymhellion a all fod yn berthnasol i Gynghorau yn ei Adroddiadau Cenedlaethol ar Lywodraeth Leol. Ceir rhestr o'r argymhellion perthnasol a gynhwysir mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2014-15 yn Atodiad 5.

# Adroddiad manwl



## Y defnydd o adnoddau

### Cyhoeddodd yr archwilydd penodedig farn archwilio ddiamod ar y cyfrifon a rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am faterion allweddol i ymdrin â hwy ym mis Medi 2014

15 Ar 29 Medi 2014, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn.

16 Fodd bynnag, roedd barn yr Archwilydd Cyffredinol ar y datganiadau ariannol yn cynnwys paragraff pwysleisio mater yn deillio o wahaniaeth barn rhwng y Cyngor a'r Archwilydd Penodedig am ddau benderfyniad a wnaeth y Cyngor a arweiniodd, ym marn yr Archwilydd Penodedig, at gynnwys gwariant anghyfreithlon yn y Datganiadau Ariannol. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 4 o'r adroddiad hwn.

### Mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor wedi gweithredu'n effeithiol yn y gorffennol, ond mae angen i'r Cyngor atgyfnerthu'r trefniadau er mwyn iddo allu ymateb i heriau ariannol y dyfodol

17 Mae gan y Gyngor hanes profedig o gyflawni ei gyllidebau yn ystod y flwyddyn yn erbyn y camau gweithredu cynlluniedig a gymeradwywyd ganddo, er na chyflwynodd adroddiadau yn erbyn cynigion arbedion penodol a'i gwnaeth yn anodd nodi'r meysydd a gyflawnodd dargedau lleihau costau a'r meysydd na wnaethant hynny.

18 Mae fframwaith corfforaethol y Cyngor ar gyfer cynllunio ariannol wedi bod yn effeithiol, er y gallai cysylltiadau rhwng cynlluniau ariannol a chynlluniau gwella fod yn fwy eglur. Mae trefniadau rheoli a rheolaeth ariannol y Cyngor yn addas at y diben ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol.

19 Mae trefniadau llywodraethu ariannol y Cyngor ar gyfer adolygu a herio perfformiad yn ddigonol ond nid yw'r cysylltiadau rhwng perfformiad ariannol a pherfformiad gwasanaethau bob amser yn eglur. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd asesu'r gwerth am arian a ddarperir gan wasanaethau'r Cyngor.

20 Mae cynlluniau arbedion cyfredol y Cyngor ar gyfer 2014-15 yn ddigonol ond nid yw'r Cyngor yn monitro nac yn cyflwyno adroddiadau ar yr arbedion effeithlonrwydd unigol a bennir. Wrth i bwysau ariannol ddwysau, mae angen gwneud hyn er mwyn sicrhau bod her effeithiol ac er mwyn nodi meysydd o dangyflawni a meysydd o arfer da.

21 Mae cynlluniau arbedion effeithlonrwydd ar waith gan y Cyngor ar gyfer 2015-16 a 2016-17 ond mae toriadau ariannol newydd wedi rhoi pwysau ychwanegol i nodi arbedion pellach a bydd angen gwneud rhai penderfyniadau anodd. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cyfres o weithdai wedi'u cynllunio'n dda i Aelodau dros yr ychydig

fisoedd nesaf er mwyn ystyried cyllidebau lefel gwasanaeth. Roedd y gweithdai hyn yn boblogaidd iawn a chyfrannodd yr Aelodau yn effeithiol atynt. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i ehangu ei waith cynllunio ariannol ac i ddatblygu ei strategaeth ariannol tymor canolig ymhellach.

## Mae angen atgyfnerthu trefniadau'r Cyngor ar gyfer llunio a chyflwyno hawliadau grant o hyd

22 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd er bod y rhan fwyaf o hawliadau bellach yn cael eu cyflwyno'n brydlon, caiff dros hanner yr hawliadau a archwilir bellach eu hamodi ac mae canran yr hawliadau a amodir yn parhau'n uchel. At hynny, diwygiwyd bron i hanner yr hawliadau a archwiliwyd.

23 Ceir rhai gwendidau o hyd o fewn trefniadau rheoli grantiau'r Cyngor y mae angen eu hatgyfnerthu. Mae ein ffi gyffredinol ar gyfer ardystio grantiau a ffurflenni ar gyfer 2013-14 wedi cynyddu o gymharu â 2012-13 ond cafodd llai o grantiau eu harchwilio.

## Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn unol â'r safon ofynnol, ond bydd yn ei chael hi'n anodd ymgymryd â dyletswyddau statudol newydd sy'n diogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd

24 Mae gan gynghorau lawer o ddyletswyddau statudol ym maes iechyd yr amgylchedd ond nid yw gwariant yn cael ei ddiogelu yn ystod y cyfnod presennol o galedi ariannol, sy'n golygu ei bod yn anos i'r gwasanaeth gyflawni blaenoriaethau strategol cenedlaethol.

25 Mae'r Cyngor yn rhagori ar lefelau gofynnol wrth ddarparu'r rhan fwyaf o'i wasanaethau iechyd yr amgylchedd, fel y'u bernir yn erbyn Safonau Arfer Gorau Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd. Er bod y Cyngor wedi cynyddu gwariant ar iechyd yr amgylchedd rhwng 2011-12 a 2013-14, lleihaodd nifer y staff a oedd yn darparu'r gwasanaethau hyn er nad mor gyflym â'r gyfradd lleihau gyfartalog ar gyfer holl gynghorau Cymru. Mae dyletswyddau statudol newydd yn cael eu cyflwyno ym maes iechyd yr amgylchedd a bydd y Cyngor yn ei chael hi'n anodd eu cyflawni.

26 Noda arolwg staff fod ymatebwyr yn gadarnhaol ar y cyfan am safon y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd a ddarperir ar hyn o bryd ond ceir ymwybyddiaeth isel o berfformiad presennol neu gynlluniau ar gyfer y dyfodol ymhlith dinasyddion.

## Llywodraethu

### Mae'r Cyngor yn ymdrin â gwendidau yn ei drefniadau llywodraethu

27 Gan ymateb i adroddiadau'r Archwilydd Penodedig er budd y cyhoedd (Ionawr 2014), a gododd nifer o faterion llywodraethu, gofynnodd y Cyngor i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) gynnal adolygiad cymheiriaid annibynnol o'i drefniadau llywodraethu ym mis Mawrth 2014. Datganodd y Cyngor yn gyhoeddus ei uchelgais i ddiwygio ei drefniadau llywodraethu er mwyn iddo allu ennill ei blwyf fel y Cyngor mwyaf agored a thryloyw yng Nghymru. Canolbwyntiodd adolygiad cymheiriaid CLlLC ar helpu'r Cyngor i gyflawni'r nod hon.

28 Canolbwyntiodd Cylch Gorchwyl Adolygiad CLlLC ar nifer o feysydd llywodraethu mewnol penodol, yn arbennig y ffordd y cynhelir busnes y cyngor, rôl y Cyngor llawn a'r pwyllgor Trosolwg a Chraffu a Datblygu a Chefnogi Aelodau. Nododd tîm yr adolygiad y canlynol:

- a er gwaethaf balchder yng ngwasanaethau'r Cyngor a pharch mawr tuag at y gweithlu, roedd gan lawer o randdeiliaid mewnol ac allanol bryderon sylweddol am y ffordd roedd y Cyngor yn cynnal ei fusnes;
- b nid oedd systemau llywodraethu mewnol na phrosesau cyfansoddiadol yn cael eu dilyn yn gyson neu ystyriwyd eu bod wedi'u cynllunio i gyfyngu ar drafodaeth ddemocrataidd a chyfleoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd;
- c roedd tensiynau mewnol yn effeithio ar y ffordd roedd y Cyngor yn gweithio a'r farn allanol amdano;
- ch yn gyffredinol, roedd anghysondeb o ran y ddealltwriaeth o briod rolau aelodau etholedig a swyddogion, a'r farn gyffredinol oedd bod y Prif Weithredwr a'r uwch swyddogion wedi chwarae rhan ormodol yn rhai o benderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol i'r graddau nad oedd cydbwysedd llywodraethu ac ystyrir yn helaeth bod y Cyngor yn cael ei arwain gan swyddogion;
- d roedd rhai o'r farn bod arweinwyr y Cyngor o ran aelodau a swyddogion yn amddiffynnol ac nad oeddent yn annog her nac yn ymateb yn adeiladol iddi, ond roedd consensws clir, yn enwedig gan aelodau, fod angen a pharodrwydd i atgyfnerthu trefniadau atebolrwydd mewnol ac allanol; ac
- dd roedd consensws, yn enwedig gan aelodau, o ran yr angen i ailddiffinio ac atgyfnerthu rôl aelodau ac o ran arwain yr agenda ar gyfer bod yn agored ac yn dryloyw.

29 Gwnaeth CLlLC gyfanswm o 39 o argymhellion i'r Cyngor, a oedd yn ymdrin â nifer o feysydd:

- a Diwylliant Sefydliadol, Arweinyddiaeth a Gwerthoedd
- b Cyngor
- c Bwrdd Gweithredol
- ch Trosolwg a Chraffu

30 Mewn ymateb i hyn, mae'r Cyngor wedi sefydlu gweithgor trawsbleidiol wedi'i gadeirio gan Gadeirydd blaenorol y Cyngor. Mae'r grŵp wedi cyfarfod wyth gwaith ers ei gyfarfod cychwynnol ym mis Rhagfyr 2014 ac mae'n parhau i gyfarfod bob pythefnos. Mae'r grŵp yn bwriadu cyflwyno adroddiad llawn i gyfarfod o'r Cyngor llawn ganol 2015 lle y caiff pob newid cyfansoddiadol ac argymhellion a phenderfyniadau eraill eu hystyried gan yr holl Aelodau.

31 Mae'r Cyngor wedi nodi cynllun gweithredu i'w helpu i olrhain a chynnal cynnydd mewn perthynas ag argymhellion CLlLC. Trafodwyd y cynllun gweithredu hwn yn fanwl yng nghyfarfodydd cyntaf y gweithgor. Mae'r Cyngor wedi ysgrifennu at y rheini fel y Bwrdd Gwasanaethau Lleol y mae angen iddynt hefyd ymateb i nifer o'r argymhellion.

## Mae'r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli ar gyfer cyfrifoldebau o ran diogelu plant yn ddigonol ar y cyfan ond gellid gwneud rhai gwelliannau

32 Mae dull gweithredu'r Cyngor o ran diogelu plant yn canolbwyntio ar y Gwasanaeth Plant ac Addysg cyfun sy'n golygu bod cysondeb rhwng polisïau a mwy o gydweithio rhwng meysydd amrywiol y ddau wasanaeth hyn. Mae gan y Cyngor fframwaith atebolrwydd clir ac mae pob uwch aelod o staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer atgyfeirio amheuon a honiadau. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor bolisi diogelu corfforaethol cynhwysfawr, sy'n wendid ac nid yw'n darparu digon o sicrwydd y caiff cyfrifoldebau corfforaethol dros ddiogelu eu nodi'n glir a'u bod yn gweithio'n effeithiol.

33 Ceir cyfeiriad at ddiogelu ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol; ond, cyfeiriad at ddiogelu oedolion yw hwnnw. Er bod risgiau'n cael eu rheoli ar sawl lefel, dylai'r Gofrestr Risg Gorfforaethol roi mwy o sylw i'r risg o ran diogelu plant. Nid oedd yr aelodau a gafodd eu cyfweld yn gyfarwydd â'r cysyniad o reoli risg.

34 Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro a gwerthuso ei gyfrifoldebau o ran diogelu plant yn addas at y diben ac yn cael eu rheoli'n effeithiol ar y cyfan. Mae gan y Cyngor system rheoli perfformiad sefydledig a rhoddir gwybodaeth fanwl am berfformiad i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai trefniadau ar gyfer herio aelodau, ar y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Craffu, fod yn gadarnach ac mae wrthi'n ystyried ffyrdd amgen o gyflawni hyn ar hyn o bryd.

35 Mae'r ffordd y mae'r Cyngor yn nodi ac yn gweithredu ar welliannau o ran ei drefniadau diogelu yn ddigonol ond, unwaith eto, gellid gwneud rhai gwelliannau. Ni chwaraeodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol ran sylweddol wrth ystyried trefniadau diogelu Plant ac er bod pwyllgorau craffu yn cael adroddiadau perfformiad diogelu yn rheolaidd, nid oes unrhyw gynlluniau i gynnal darnau penodol o waith ar ddiogelu. Mae'r materion hyn yn tanseilio gallu'r Cyngor i fodloni ei hun bod ei drefniadau diogelu yn gweithio'n effeithiol.

36 Ar y cyfan, mae trefniadau Chwythu'r Chwiban yn dda a cheir rhai enghreifftiau o ymarfer rhagorol. Drwy fynd i'r afael â nifer o wendidau cymharol ddibwys mewn polisi, prosesau a hyfforddiant, gellir atgyfnerthu trefniadau ymhellach.

## Caiff Gwasanaeth Tai y Cyngor ei ategu gan fodel llywodraethu priodol a fframwaith rheoli perfformiad sefydledig, ond gellid defnyddio data am berfformiad mewn ffordd fwy gweithredol i ysgogi gwelliant

37 Ceir model llywodraethu clir ar gyfer y Gwasanaeth Tai gydag arweinyddiaeth weithredol ac ymgysylltiol gan Aelod y Bwrdd Gweithredol. Ceir dealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau, gan Aelodau a Swyddogion, sydd, ar y cyd â strwythur clir ar gyfer gwneud penderfyniadau, yn galluogi trefniadau llywodraethu da.

38 Yn ogystal, ceir cyfraniad cynghorol gan Banel Cynghori'r Gwasanaethau Tai sy'n cynnwys chwe chynghorydd, chwe chynrychiolydd o blith tenantiaid a rheolwyr tai. Caiff y panel hwn ei gadeirio gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol.

39 Ceir cydberthynas gynhyrchiol rhwng y Bwrdd Gweithredol a'r swyddogaeth graffu, gyda'r swyddogaeth graffu yn darparu her gadarnhaol, a thrwy weithgareddau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn darparu argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol mewn nifer o feysydd megis ailddechrau defnyddio eiddo gwag.

40 Mae gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad sefydledig. Fodd bynnag, er bod hyn yn rhoi cyfoeth o ddata i aelodau a swyddogion, ni chaiff bob amser ei ddefnyddio'n effeithiol i reoli gwelliant. Gall Aelodau a Swyddogion ddefnyddio System Rheoli Gwybodaeth am Berfformiad (PIMS), sef system TG, y Cyngor. Caiff camau gweithredu a mesurau perfformiad cynllun busnes y Gwasanaeth eu cynnwys o fewn PIMS a'u diweddaru'n rheolaidd. Caiff yr adroddiadau a gyflwynir i'r Bwrdd Gweithredol a'r swyddogaeth Graffu eu cynhyrchu gan ddefnyddio system PIMS. Fodd bynnag, ceir pryderon ymhlith Aelodau fod yr adroddiadau hyn yn rhy gymhleth ac nad ydynt, fel y cyfryw, yn darparu darlun ystyrlon, gan lesteirio her a chraffu effeithiol. Nid yw'r Aelodau ychwaith yn cael gwybodaeth ariannol na gwybodaeth am berfformiad gyda'i gilydd mewn un adroddiad, sy'n cyfyngu ar eu gallu i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar set o wybodaeth gytbwys.

## Perfformiad

### Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth gyflawni ei weledigaeth o wasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig

41 Cyhoeddodd yr AGGCC ei Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013–14 ym mis Hydref 2014. Mae'r paragraffau canlynol (42 i 48) yn crynhoi'r adroddiad hwn.

42 Nododd AGGCC fod y Cyngor yn parhau i gael budd o arweinyddiaeth gref ym mhob rhan o'r gwasanaethau plant ac oedolion, bod gan uwch swyddogion weledigaeth glir a'u bod yn rhoi cynlluniau ar waith yn effeithiol i sicrhau bod y bobl sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin sydd angen cael gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael ansawdd bywyd gwell. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn cadarnhau bod y Cyngor yn parhau i roi blaenoriaeth i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a bod ei gynlluniau yn parhau'n uchelgeisiol er gwaethaf y cyfyngiadau ariannol a wynebir ganddo. Caiff ei gyllidebau eu rheoli'n dda.

43 Mae'r Cyngor wedi rhoi nifer o brosiectau arloesol ar waith ac mae wedi darparu tystiolaeth o amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd drwy ei ymdrechion strategol i drawsnewid gwasanaethau. Nododd ei fwriad i roi rheolaeth i bobl dros y gwasanaethau y maent yn eu cael ac i helpu mwy o bobl i fyw bywydau annibynnol. Mae'n ceisio lleihau dibyniaeth ar ei wasanaethau drwy atgyfnerthu'r cymorth a roddir yn y gymuned.

44 Mae adroddiad perfformiad blynyddol y Cyngor wedi'i strwythuro er mwyn adlewyrchu elfennau allweddol y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'n amlwg y bydd mewn sefyllfa gref i ddarparu gwasanaethau o fewn y fframwaith deddfwriaethol newydd. Mae'r Cyngor wedi nodi sut y bydd yn darparu gwasanaethau sy'n dangos bod gwasanaethau yn cael eu comisiynu a'u hintegreiddio'n well, lle y bydd lles a llais dinasyddion wrth wraidd y broses o'u darparu.

45 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, newidiadau lles a phwysau demograffig, yn cyflwyno heriau sylweddol i'r dyfodol. Mae'n realistig o ran sut y dylid paratoi ar gyfer gofynion newydd a disgwyliadau cyfnewidiol y cyhoedd. Mewn ymateb i ddisgwyliad Llywodraeth Cymru y caiff gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn eu hintegreiddio, mae'r Cyngor wedi nodi ei fwriadau. Mae'r cynnydd a wnaed eisoes yn Sir Gaerfyrddin yn awgrymu bod y Cyngor mewn sefyllfa dda i gyflawni'r weledigaeth hon o wasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

46 Mae polisi Llywodraeth Cymru, 'Mwy na Geiriau', sef y fframwaith strategol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol, yn cael ei roi ar waith yn effeithiol, gyda mesurau'n cael eu datblygu i sicrhau y gall pobl ddefnyddio'r gwasanaethau drwy gyfrwng eu dewis iaith.

47 Mae adroddiadau'r cyfarwyddwyr a'r penaethiaid gwasanaethau wedi nodi'n glir eu gweledigaeth ar gyfer darparu gwasanaethau integredig mwy costeffeithiol. Ceir cynlluniau clir i ddangos sut y caiff bywydau pobl yn Sir Gaerfyrddin eu gwella drwy ddarparu gwasanaethau wedi'u cydgysylltu'n well. Mae'r Cyngor yn glir o ran ei flaenoriaethau ac wedi parhau i wneud gwelliannau drwy gydol y flwyddyn.

48 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn y meysydd a nodwyd ar gyfer gwelliant yn adroddiad adolygiad a gwerthusiad blynyddol AGGCC o berfformiad ar gyfer 2012-13.

## Diogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg

49 Yn ystod 2014-15, cynhaliodd AGGCC arolygiad o: Diogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg. Cynhaliwyd yr arolygiad fel rhan o raglen arolygiadau thematig cenedlaethol AGGCC. Roedd y fethodoleg ar gyfer yr adolygiad yn cynnwys tri diwrnod a hanner o waith maes ym mhob awdurdod lleol ledled Cymru, rhwng mis Ionawr a mis Mai 2014. Nod yr arolygiad cenedlaethol oedd asesu ansawdd y gwaith o gynllunio gofal ledled Cymru a ph'un a oedd yn gwneud y canlynol yn effeithiol:

- a yn cefnogi ac yn diogelu plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal;
- b yn nodi ac yn rheoli ymddygiad sy'n gwneud plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal yn agored i niwed ac yn peri risg iddynt;
- c yn hyrwyddo arfer sy'n seiliedig ar hawliau a llais y plentyn;
- ch yn hyrwyddo canlyniadau gwell i blant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal; ac
- d yn hyrwyddo cydymffurfiaeth â pholisïau a chanllawiau.

50 Gellir gweld canfyddiadau'r arolygiadau o awdurdodau lleol unigol ac adroddiad trosolwg cenedlaethol AGGCC ar wefan AGGCC.

## Mae rhaglen moderneiddio addysg y Cyngor wedi parhau i ysgogi gwelliant o ran adeiladau ysgolion

51 Mae'r Cyngor wedi parhau i fuddsoddi mewn adeiladau ysgolion ac wedi gwario tua £17 miliwn a chyfraniad pellach o £14.8 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Mae nifer o brosiectau mawr yn mynd rhagddynt, er enghraifft, mae gwaith adeiladu wedi dechrau ar safle Ysgol Maes y Gwendraeth, safle Ysgol Bro Dinefwr a Phrosiect Cam 1 Ysgol Uwchradd Ardal Llanelli - Strade. Mae'r gwaith adeiladu hefyd yn mynd rhagddo'n llwyddiannus ar safle Ysgol Dyffryn Aman ac mae Ysgol Ffwrnes bellach wedi'i chwblhau.

52 Nid yw'r ystadegau perfformiad cyfredol yn ystyried ysgolion sy'n cael eu hadnewyddu neu eu hadeiladu, ac fel y cyfryw, erys nifer yr ysgolion sy'n cyrraedd statws Gradd 'A' ar 25 y cant. Bu cynnydd bach yn nifer yr ysgolion Gradd 'B', sydd bellach ar lefel o 56 y cant. Yn ystod y ddwy i dair blynedd nesaf, wrth i'r ysgolion sy'n cael eu hadnewyddu neu eu hadeiladu o'r newydd gael eu cwblhau, bydd cyfran yr ysgolion Gradd 'A' yn cynyddu'n sylweddol.

53 Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio i werthuso effaith adeiladau newydd ac adeiladau wedi'u huwchraddio ar ddisgyblion ac athrawon. Fel y nodwyd gennym y llynedd, cynhelir y gwerthusiad 18 mis ar ôl cwblhau'r gwaith moderneiddio a bydd yn ystyried barn staff a disgyblion am eu hamgylchedd newydd yn ogystal â mesur canlyniadau o ran lefelau presenoldeb a chyrhaeddiad gwell. Mae'r Cyngor bellach wedi cwblhau nifer o'r gwerthusiadau hyn. Fel rhan o'r gwerthusiad, cynhelir arolygon o staff a disgyblion, gan ofyn iddynt am eu barn ar eu hamgylchedd. Bu canlyniadau'r arolygon hyn yn gadarnhaol iawn.

54 Bu'n fwy anodd i'r Cyngor asesu'r effaith ar lefelau presenoldeb a chyrhaeddiad gwell gan fod ffactorau eraill yn effeithio ar y mesurau hyn. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall gymryd cenhedlaeth cyn y gellir deall effaith y gwelliannau yn y meysydd hyn yn llawn. Fodd bynnag, ledled y sir gyfan, cynyddodd y mesur allweddol sy'n ystyried canran y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni trothwy lefel 2 gan gynnwys TGAU graddau A* i C mewn Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg 2.8 y cant i 52.7 y cant, gan fethu targed y Cyngor o 60 y cant ond yn uwch na chyfartaledd Cymru a chan olygu mai'r Cyngor oedd yr 11eg Cyngor yng Nghymru o ran y mesur hwn.

## Mae'r Cyngor wedi parhau i gyflawni uchelgais allweddol ar gyfer yr amgylchedd

55 Fel rhan o'n gwaith asesu perfformiad, gwnaethom edrych ar amcan gwella'r Cyngor sy'n anelu at ddiogelu a gwella'r amgylchedd. Roedd yr asesiad hwn yn cynnwys asesiad o b'un a oedd adroddiad perfformiad cyhoeddus blynyddol y Cyngor yn deg a chytbwys o ran y ffordd y cyflwynodd y cynnydd a wnaed gan y Cyngor.

56 Bu'r Cyngor yn ymgysylltu â dinasyddion er mwyn cynnal lefelau ailgylchu gan y cyhoedd a'u gwella. Drwy ymarferion 'curo drws', mae cynghorwyr ailgylchu yn annog trigolion i ailgylchu cymaint â phosibl. Lle yr ymgymerwyd â'r gweithgaredd hwn, noda'r Cyngor fod cyfraddau ailgylchu a chompostio wedi cynyddu tua 12 y cant. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymgysylltu â grwpiau eraill megis Age Concern, Fforwm 50+ a chynghorau cymuned i gynyddu casgliadau gwydr gan yr henoed a'r eiddil. Mae'r cynllun Eco Ysgolion yn parhau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ailgylchu mewn ysgolion a chyflwyno arferion ailgylchu yn gynnar i blant. Erbyn hyn, Sir Gaerfyrddin sydd wedi ennill y nifer uchaf o wobrau platinwm ar gyfer Eco Ysgolion yng Nghymru.

57 O ganlyniad i'w fentrau, mae'r Cyngor wedi anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi, ond, roedd gwerth y gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yn dal i gynrychioli 73 y cant o'i lwfans tirlenwi yn 2013-14. Mae hyn yn gynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol o ran y ganran ac mae ymdrin â hyn yn her i'r Cyngor gan fod lwfansau tirlenwi yn lleihau bob blwyddyn. Gallai'r fenter ddiweddar i allforio gwastraff gweddilliol ar longau i Sgandinafia lle y caiff ei losgi er mwyn darparu gwres i gynlluniau gwresogi cymunedau helpu yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae llwyddo i gyrraedd targedau yn y dyfodol yn debygol o arwain at oblygiadau o ran costau i'r Cyngor.

58 Yn gyffredinol, llwyddodd y Cyngor i gadw ei safle fel yr 8fed yng Nghymru, gan ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio 55.7 y cant o wastraff, a rhagori ar y targed cenedlaethol, sef 52 y cant. Mae ganddo amrywiaeth da o fesurau i ategu ei berfformiad rheoli gwastraff; noda Adroddiad Perfformiad Gwasanaeth Awdurdod Lleol Llywodraeth Cymru fod y Cyngor ar hyn o bryd yn darparu gwasanaeth gwell na'r cyffredin am wariant is na'r cyffredin.

59 Mae amrywiaeth y data sydd ar gael, o bob ffynhonnell, yn cynnig adnodd gwerthfawr i'r Cyngor, gan ei helpu i gynnal gwerthusiad cywir o'i gynnydd a chyflwyno portread teg a chytbwys o berfformiad yn y maes hwn yn ei adroddiad i'r cyhoedd.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth wella ansawdd ei dai cymdeithasol

60 Fel rhan o'n gwaith asesu perfformiad, gwnaethom edrych ar amcan gwella'r Cyngor sy'n anelu at wella Stoc Tai y Cyngor a helpu pobl leol i gael gafael ar gartrefi i'w rhentu y gallant eu fforddio. Roedd yr asesiad hwn yn cynnwys asesiad o b'un a oedd adroddiad perfformiad cyhoeddus blynyddol y Cyngor yn deg a chytbwys o ran y ffordd y cyflwynodd y cynnydd a wnaed gan y Cyngor.

61 Mae'r Cyngor wedi bwrw ati gyda Safon Cartrefi Sir Gaerfyrddin (CHS) ac mae ar y trywydd cywir i gwblhau'r holl welliannau erbyn diwedd mis Rhagfyr 2015. Yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2013-14, cofnododd y Cyngor gynnydd o 22 y cant mewn cyfraddau cwblhau gydag ychydig islaw 75 y cant o dai cymdeithasol yn cyrraedd y safon erbyn diwedd mis Mawrth 2014 ac ychydig dros 88 y cant wedi'u cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2015.

62 Mae'r Cyngor yn gweithio'n galed i ailddechrau defnyddio eiddo gwag ond mae'r nifer uchel o eiddo gwag yn y sir yn golygu, ar y cyfan, bod ei berfformiad, sef 5.7 y cant, islaw cyfartaledd Cymru, sef 9 y cant. Fodd bynnag, yn 2013-14, helpodd y Cyngor i ailddechrau defnyddio 115 o eiddo, mwy nag unrhyw Gyngor arall yng Nghymru, gwelliant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a chan gyrraedd targed y Cyngor ei hun. Er mwyn ei helpu i ddeall sefyllfa'r sir mewn perthynas ag eiddo gwag, sefydlodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau grŵp gorchwyl a gorffen.

63 Mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion tai a darparu tai fforddiadwy o ansawdd da. Er mwyn amlinellu ei ddull gweithredu, mae'r Cyngor yn datblygu cynllun tai fforddiadwy 10 mlynedd, gan edrych ar sefyllfa'r sir fesul ward. Yn ogystal, gwnaed penderfyniadau polisi allweddol er mwyn gwella'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy. Er enghraifft, Sir Gaerfyrddin oedd y Cyngor cyntaf yng Nghymru i lwyddo i gael cytundeb gan Lywodraeth Cymru i atal y cynllun 'Hawl i Brynu' gan alluogi iddo gadw ei stoc tai cymdeithasol cyfredol. Lle y bo'n briodol, mae'r Cyngor hefyd yn prynu tai yn ôl a fu unwaith yn rhan o'r stoc tai cymdeithasol ond a werthwyd o dan y cynllun 'Hawl i Brynu' yn y gorffennol. At hynny, mae'r Cyngor wedi adeiladu 12 o fyngalos newydd.

64 Mae'r cyfnod o amser y caiff unedau tai cymdeithasol eu gadael yn wag wedi lleihau drwy ddefnyddio prosesau symleiddio. O ganlyniad, llwyddodd y Cyngor i ailbrydlesu 22 o eiddo ar yr un dydd a'r cyfnod cyfartalog a gymerir i ailbrydlesu yw 25 diwrnod, sef gwelliant o gymharu â chyfartaledd y flwyddyn flaenorol, sef 86 diwrnod. Yn ogystal â darparu cartrefi yn gyflymach i denantiaid, mae hyn yn lleihau'r incwm rhent a gollir o ganlyniad i eiddo gwag; mae'r Cyngor yn amcangyfrif ei fod wedi arbed tua £200,000 yn hyn o beth.

65 Yn gyffredinol, down i'r casgliad bod y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad i'r cyhoedd wedi galluogi'r Cyngor i gyhoeddi gwerthusiad cywir o'i gynnydd a phortread teg a chytbwys o berfformiad yn y maes hwn.

## Mae gan y rhaglen Trawsnewid, Arloesi a Newid drefniadau llywodraethu cadarn, amcanion clir ac mae'n cyfrannu at ganlyniadau gwell ac arbedion ariannol

66 Mae'r Cyngor ar y cyfan yn glir o ran yr hyn y mae'n anelu at ei gyflawni drwy ei raglen Trawsnewid, Arloesi a Newid. Mae'r rhaglen yn gweithredu o fewn model llywodraethu cadarn gyda chyfraniadau priodol gan swyddogion ac aelodau. Mae tîm y rhaglen yn cynnwys pedwar aelod penodedig o staff y mae gan bob un ohonynt brofiad ym maes dadansoddi busnes ac yn arbennig y dull gweithredu 'Meddylfryd Systemau Vanguard'[2]. Caiff y tîm gymorth gan swyddogion yn y meysydd lle y cynhelir prosiectau newid ac mae'n gyfrifol am gefnogi a datblygu rhaglen newid sefydliadol y Cyngor. Yn gyffredinol, mae'r trefniadau ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau yn dda ond ni roddir ystyriaeth ddigon cadarn i risg.

67 Caiff Bwrdd y Rhaglen Trawsnewid Arloesi a Newid ei gadeirio gan y Prif Weithredwr y mae'r ffaith ei fod yn rhan o'r rhaglen ac yn amlwg yn ei chefnogi yn darparu ysgogiad sylweddol. Mae'r aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn mynd i gyfarfodydd misol y Rhaglen a chyfarfodydd Bwrdd y Rhaglen a gynhelir bob deufis. Mae'r cyfranogiad a'r oruchwyliaeth hon yn darparu her yn ogystal â system ar gyfer sianelu gwybodaeth i'r Bwrdd Gweithredol ac ymgysylltu deiliaid portffolios â phrosiectau sy'n mynd rhagddynt yn eu meysydd pwnc. Er mwyn atgyfnerthu cyfranogiad aelodau, mae tîm y rhaglen yn bwriadu cynnal seminar i aelodau yn 2015 er mwyn rhoi cyfle i bob aelod etholedig ddod yn fwy ymwybodol o'r rhaglen yn fanwl.

68 Mae achosion busnes prosiectau unigol yn amrywio o ran lefel eu manylder. Mae achosion busnes yn cynnwys disgwyliadau cyffredinol o ran arbedion ariannol, ond nid yw'r ffordd y cânt eu cyfrifo yn eglur, sy'n ei gwneud hi'n anodd asesu p'un a gynhwyswyd yr holl ffactorau ariannol. Nid yw'r achosion busnes yn ddigon manwl i gyfleu amrywiaeth lawn y buddiannau a'r anfanteision posibl, mae hyn yn arbennig o amlwg yn y prosiectau cyllid/prosiectau a gaiff eu llywio gan arbedion.

69 I ddechrau, roedd gan brosiectau'r rhaglen Trawsnewid, Arloesi a Newid gwmpas cadarn ac roeddent yn canolbwyntio'n benodol ar feysydd penodol. Fodd bynnag, wrth i fwy o brosiectau gael eu dechrau, mae mwy o botensial i brosiectau unigol o dan y rhaglen effeithio ar ei gilydd. Nid yw'n eglur a oes gan y Cyngor systemau

2 Vanguard oedd y cyntaf i drosi syniadau Taiichi Ohno sy'n sail i System Cynhyrchu Toyota yn syniadau y gellir eu defnyddio ar gyfer sefydliadau gwasanaeth. Mae Dull Vanguard yn trosglwyddo arbenigedd i bobl (rheolwyr a staff) yn y sefydliad. Mae Vanguard yn defnyddio 'sensei' i roi'r Dull ar waith, sef pobl sy'n arbenigwyr mewn damcaniaeth ymyrryd (sut rydych yn gwneud newid) a damcaniaeth systemau (sut i ddadansoddi a dylunio gwaith).

ar waith i reoli'r achosion hyn o ryngddibyniaeth a'r risgiau cysylltiedig a allai godi gan nad oes ganddo flaengynllun gwaith strategol ar gyfer mentrau'r rhaglen yn y dyfodol.

70 Mae gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad sefydledig, a ehangwyd i ategu prosiectau o dan y rhaglen Trawsnewid, Arloesi a Newid. Mae'n darparu gwybodaeth fusnes bwysig. Mae'r trefniadau monitro perfformiad a ddefnyddir i ategu'r dull systemau darbodus yn dda, ond er eu bod yn cynnig amrywiaeth helaeth o ddata i'r aelodau a'r swyddogion, ni chânt bob amser eu defnyddio'n effeithiol i reoli gwelliant. Nid yw'r Cyngor yn cynnal dadansoddiadau digon manwl o'r data a gofnodir, gan gyfyngu ei allu i ddefnyddio'r data hyn i helpu i newid gwasanaethau ac i wella gwasanaethau ymhellach.

71 Mae rhaglen Trawsnewid, Arloesi a Newid y Cyngor yn helpu i sicrhau gwell canlyniadau i ddinasyddion, gwasanaethau mwy effeithlon ac arbedion ariannol. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi lleihau'r amser a gymerir i ailbrydlesu tai cymdeithasol, wedi lleihau'r amser a gymerir i gyflawni gwaith addasu drwy'r grant ariannu anableddau, wedi lleihau'r amser rhwng y cyswllt cychwynnol a'r adeg y darperir gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl hŷn sy'n agored i niwed ac wedi cynnal mwy o waith cynnal a chadw ar eiddo'r cyngor am gost is.

72 Er nad arbedion ariannol yw'r prif ffactor sy'n ysgogi'r rhan fwyaf o brosiectau, mae gan y Cyngor ddiddordeb yn yr arbedion arian parod a gynhyrchir ganddynt. Mae'r Cyngor yn ystyried amrywiaeth o fuddiannau ariannol yn gyffredinol, megis arbedion y gellir eu cyfnewid am arian parod, costau a gafodd eu hosgoi, gwelliannau o ran cynhyrchiant ac incwm newydd a gynhyrchir. Er ein bod yn cydnabod ei bod yn anodd nodi arbedion o fewn dull 'meddylfryd systemau', ceir diffyg manylder o fewn cyfrifiadau'r Cyngor, sy'n ei gwneud hi'n anodd asesu i ba raddau y mae'r arbedion a gofnodir gan y Cyngor yn gywir.

## Mae cyfle i'r Cyngor wella ei berfformiad wrth weinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn

73 Ym mis Ionawr 2015, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei adroddiad ar ba mor dda y mae cynghorau yn rheoli effaith newidiadau diwygio lles ar denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru. Adolygodd ei adroddiad y broses o reoli a defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn gan gynghorau yng Nghymru a daeth i'r casgliad fod anghysondebau a gwendidau sylweddol yn y broses o ddyrannu, dosbarthu, gweinyddu a defnyddio'r taliadau hyn. Gwnaethom waith dilynol mewn cynghorau unigol. Canfu ein gwaith yn Sir Gaerfyrddin y canlynol:

a mae'n anodd i gwsmeriaid gael gafael ar wybodaeth am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn ar wefan y Cyngor;

b ceir cyfeiriadau o hyd ar y wefan bod Budd-dal Treth Gyngor yn gymwys ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn sy'n anghywir;

c er bod gwefan y Cyngor yn darparu ffurflen gais hygyrch y gellir ei lawrlwytho, rhaid ei chwblhau â llaw a'i hanfon drwy'r post neu ei sganio a'i hanfon dros yr e-bost;

ch er bod dogfen bolisi fewnol, nid oedd unrhyw strategaeth neu bolisi cyhoeddedig ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn ac nid yw'n glir sut y mae'r Cyngor yn defnyddio'r cronfeydd hyn i helpu pobl leol ag anghenion tai; ac

d roedd y Cyngor wedi talu £181,189 o'i ddyraniad ariannol o £346,717, sef 52 y cant o'i ddyraniad, ar ddiwedd mis Tachwedd 2014.

74 Mae gan y Cyngor systemau ar waith i fonitro'r swm a gaiff ei wario yn erbyn swm yr arian a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, ac hefyd i fonitro faint o gwsmeriaid a gafodd gymorth a faint o arian sy'n weddill yn ei gyllideb Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Mae'r Cyngor hefyd yn cofnodi faint o landlordiaid sy'n cael cymorth.

75 Mae'r Cyngor yn adolygu achosion lle y mae wedi gwrthod darparu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, er mwyn sicrhau y gwnaed y penderfyniad cywir. Mae ganddo rai systemau ar waith ar gyfer monitro effaith Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Er enghraifft, mae staff Budd-dal Tai yn cyd-drafod â staff Gwasanaethau Tai er mwyn cael data i benderfynu p'un a yw tenantiaid mewn dyled ac yn destun y Cymhorthdal Ystafell Sbâr. Fodd bynnag, nid yw'n eglur sut y caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i ategu'r broses o ddatblygu polisi'r Cyngor ar Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn a gwaith y Cyngor i ymdrin ag effaith diwygiadau lles.

## Gan ymateb i ostyngiad yn y defnydd o'r Gymraeg a nodwyd yng Nghyfrifiad 2011, mae'r Cyngor yn ceisio gwella'r defnydd o'r Gymraeg yn y sir

76 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar ddiwedd 2014. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy rinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, a bydd yn gorfodi safonau drwy ymchwilio i gwynion statudol, gwneud penderfyniadau ar ymchwiliadau statudol, cynnal cofrestr o gamau gorfodi, a gosod cosbau sifil lle bo'n briodol.

77 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

78 Nododd y Comisiynydd fod y Cyngor yn cynnig rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg gyffredinol i staff yn ogystal â hyfforddiant wedi'i deilwra'n benodol i ofynion adrannau. Cyflwynwyd cwrs cyfryngau newydd i aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn ystod 2013-14, a darparwyd cwrs i unigolion sy'n gofalu am yr henoed.

79 Datblygodd y Cyngor Strategaeth Dementia ar gyfer gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n cynnwys anghenion siaradwyr Cymraeg.

80 Cofnodwyd cynnydd o ran lefel cydymffurfiaeth y wefan gorfforaethol â’r cynllun iaith Gymraeg. Fodd bynnag, mae gwella ansawdd y wefan yn parhau yn flaenoriaeth.

81 Cyhoeddodd y Cyngor Ddatganiad Polisi ar y Gymraeg, sy’n amlinellu ei weledigaeth ar gyfer yr iaith, a sefydlwyd gweithgor trawsbleidiol i ymateb i ganfyddiadau Cyfrifiad 2011. Cyflwynodd y gweithgor 73 o argymhellion ar gyfer atgyfnerthu’r Gymraeg yn y sir ac mae’n anelu at greu cynllun gweithredu yn ystod y flwyddyn nesaf.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Cyngor Sir Caerfyrddin

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, archwilio'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b'un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

## Nid wyf yn gwneud unrhyw argymhellion o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Colin Davies, Rheolwr
Jeremy Evans, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad Cyngor Sir Caerfyrddin o berfformiad 2013-14

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) o berfformiad 2013-14 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad o'i berfformiad yn ystod 2013-14 gan ddisgrifio ei berfformiad mewn perthynas â'r canlynol:

- cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; a
- chyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn nodi a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn cynnwys adolygu cyhoeddiad y Cyngor er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

## Nid wyf yn gwneud unrhyw argymhellion o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Colin Davies, Rheolwr
Jeremy Evans, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Kevin Madge
Arweinydd
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

Annwyl Gynghorydd Madge

**Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Sir Caerfyrddin 2013-14**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau er bod lle i wella o hyd mewn rhai meysydd

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiadau Ariannol yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y Datganiadau Ariannol;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r Datganiadau Ariannol.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu Datganiadau Ariannol yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 29 Medi 2014 rhoddais farn archwilio ddiamod gyda pharagraff 'pwysleisio mater' ar y Datganiadau Ariannol gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor a Chronfa Bensiwn Dyfed. Rhoddwyd barn archwilio debyg ar eich Datganiadau Ariannol ar gyfer 2012-13. Cyflwynwyd adroddiad ar y materion allweddol a oedd yn deillio o'r adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar 26 Medi 2014.

Yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Archwilio nodwyd gennym fod ansawdd y Datganiadau Ariannol yn dda a'i fod wedi gwella eto o gymharu â'r llynedd. Nodwyd gennym nad oeddem wedi nodi unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol – nodwyd hefyd fod rheolaethau o fewn y system cyfrifyddu cyfalaf ac asedau sefydlog wedi gwella eleni.

Roedd y paragraff pwysleisio mater yn ymwneud â datganiadau ariannol y Cyngor ac nid datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed. Deilliodd y paragraff pwysleisio mater o'r ffaith bod gwahaniaeth barn rhwng y Cyngor a ni ynghylch dau benderfyniad a wnaeth y Cyngor a arweiniodd at gynnwys gwariant anghyfreithlon yn y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2013-14, yn ein barn ni. Cyhoeddais ddau Adroddiad er Budd y Cyhoedd ar 31 Ionawr 2014 lle y nodais fod y penderfyniadau yn anghyfreithlon, yn fy marn i. Ystyriodd y Cyngor yr adroddiadau hyn mewn Cyfarfod Eithriadol o'r Cyngor ar 27 Chwefror 2014 ac mae wedi cytuno i gymryd y camau angenrheidiol mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed.

Nododd Llythyr Archwilio Blynyddol y llynedd y materion llywodraethu a oedd yn deillio o'm Hadroddiadau er Budd y Cyhoedd. Mae'r Cyngor wedi sefydlu grŵp trawsbleidiol i adolygu'r trefniadau llywodraethu a'r trefniadau gweithdrefnol ym mhob rhan o'r sefydliad.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y Datganiadau Ariannol ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Yn gyffredinol, ni all yr Archwilydd Cyffredinol ddod i gasgliad ar hyn o bryd ynghylch a yw'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2014-15. Y rheswm dros hyn yw nad yw'r Cyngor wedi ymateb eto i adolygiad llywodraethu CLILC a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac nad ydym wedi cwblhau ein gwaith asesu gwelliant parhaus eto.

Fel ar gyfer sawl blwyddyn, unwaith eto rydym wedi nodi gwendidau yn nhrefniadau rheoli grant y Cyngor sy'n peri risg ariannol sylweddol i'r Cyngor a risg sylweddol i'w enw da. Ym mis Medi 2014 gwnaethom hysbysu'r Pwyllgor Archwilio, yn seiliedig ar ein gwaith ar hawliadau 2012-13, y gellid atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer llunio a chyflwyno hawliadau grant, yn enwedig ar gyfer hawliadau Ewropeaidd. Byddai hyn yn osgoi amlygu'r Cyngor i'r risg o golli arian a ffioedd archwilio uwch. Erys cyfleoedd i wella'r gwaith cyffredinol o reoli grantiau ymhellach, yn arbennig:

- atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer dyfarnu a monitro grantiau i drydydd partïon;
- sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau caffael y Cyngor;
- darparu tystiolaeth gadarn i ategu dosraniadau i hawliadau; a
- sicrhau bod cynlluniau cymeradwy, Memorandwm Cytundebau neu Gytundebau Lefel Gwasanaeth ar waith lle y bo'n berthnasol.

Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd wedi nodi gwendidau o ran gweithgarwch rheoli grantiau sy'n tynnu sylw at faterion tebyg i'r rhai rydym wedi'u nodi.

Mae ein gwaith archwilio grantiau o ran hawliadau 2013-14 yn mynd rhagddo ond ein canfyddiadau cychwynnol yw bod angen gwella trefniadau rheoli grantiau'r Cyngor o hyd. Yn benodol, rydym wedi nodi bod angen i'r Cyngor wella ei drefniadau ar gyfer dyfarnu grantiau'r Gronfa Datblygu Eiddo o dan gynllun grantiau Cydgyfeirio'r Undeb Ewropeaidd. Hysbysir Pwyllgor Archwilio'r Cyngor am ganlyniadau ein gwaith pan fydd wedi'i gwblhau. Bydd gan y Pwyllgor Archwilio rôl allweddol i'w chwarae o ran sicrhau yr ymdrinnir â'r materion ac y gwneir cynnydd yn y maes hwn.

Yn 2013-14 gwnaeth y Cyngor danwario £2.8 miliwn. Ar ddiwedd blwyddyn ariannol cynyddodd cronfeydd wrth gefn y Cyngor y gellid eu defnyddio £16 miliwn i £82 miliwn (nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn 'wedi'u clustnodi' gan gynnwys y Cyfrif Refeniw Tai, cronfeydd wrth gefn Ysgolion a derbyniadau cyfalaf). Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2014-15, ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn gorwario £0.3 miliwn yn erbyn y gyllideb.

Gan edrych ymlaen, bydd setliad cyllidebol diweddar Llywodraeth Cymru, ynghyd ag amrywiaeth o bwysau eraill o ran costau, yn golygu y bydd pob corff llywodraeth leol yng Nghymru yn wynebu sefyllfaoedd ariannol heriol tu hwnt. Nododd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Chwefror 2014 ar gyfer y cyfnod rhwng 2014-15 a 2016-17 arbedion effeithlonrwydd heriol gwerth £29.7 miliwn. Mae rhagolygon cyfredol y gyllideb sy'n seiliedig ar y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar (gostyngiad o 3.3 y cant mewn arian) yn golygu bod angen arbed £44 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Bydd yn rhaid i'r Cyngor wneud rhai penderfyniadau anodd er mwyn cyflawni'r arbedion hyn.

Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol cadarn ar y cyfan ond mae angen gwneud gwelliannau mewn rhai meysydd. Mae angen sicrhau bod y cysylltiadau rhwng cynlluniau ariannol a chynlluniau gwella a pherfformiad gwasanaethau yn glir a bod targedau ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yn cael eu monitro a'u herio yn unigol.

Rydym wrthi'n ymdrin â gohebiaeth gan nifer o etholwyr ac am y rheswm hwn ni fu'n bosibl i ni roi'r dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r Datganiadau Ariannol wedi'i gwblhau. Rydym yn rhagweld y byddwn yn gallu rhoi'r dystysgrif erbyn diwedd mis Rhagfyr 2014.

Ar y cam cynllunio y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2013-14 oedd £184,167. Rydym yn rhagweld y byddwn yn gallu aros o fewn y ffi hon.

Yn gywir

Richard Harries, Arweinydd Ymgysylltu
**Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig**

cc Mr Mark James, Prif Weithredwr
Mr Chris Moore, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol

# Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Mai 2014 | Craffu Da? Cwestiwn Da! | A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. |
| | | A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. |
| | | A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor. |
| | | A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. |
| | | A5 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. |
| | | A6 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. |
| | | A7 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. |
| | | A8 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2014 | Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant - Canfyddiadau adolygiad o gynghorau yng Nghymru | A1 | Ynghyd â phartneriaid, mapio ac adolygu'r gwariant ar wasanaethau NEET er mwyn deall yn well pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Fframwaith. |
| | | A2 | Egluro eu dull strategol o ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET yn ogystal â'u dull ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed. |
| | | A3 | Canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sylweddol neu luosog i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn hytrach na'r rhai sy'n fwy tebygol o ailymgysylltu heb lawer o gymorth ychwanegol. |
| | | A4 | Datblygu eu hamcanion a'u targedau ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET fel bod modd eu dwyn i gyfrif ac fel bod eu gwaith yn gyson â thargedau ac amcanion Llywodraeth Cymru. |
| | | A5 | Sicrhau bod aelodau etholedig a phartneriaid yn deall yn llwyr fod gan gynghorau gyfrifoldeb clir i arwain a chydgysylltu gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 16-24 oed. |
| | | A6 | Gwella prosesau i werthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian cymharol y gwasanaethau a'r ymyriadau yn eu hardal y bwriedir iddynt helpu i ostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET. |


| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | | Argymhelliad |
|---|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A1 | Diwygio’r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. |
| | | A2 | Rhoi’r sgiliau a’r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a’u herio’n effeithiol. |
| | | A3 | Ymgysylltu’n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio’r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. |
| | | A4 | Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• Nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• Cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni’r rhain.<br>• Pennu ‘safon dderbyniol o berfformiad’ ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.<br>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â’r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy’n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau’r effaith a’r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A5 | Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon i ategu penderfyniadau ar ddyfodol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cyngor; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. |
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A1 | Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch yn well er mwyn mynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol drwy sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n ymdrin â gwaith holl adrannau perthnasol cynghorau, cymdeithasau tai a gwaith rhanddeiliaid allanol. |
| | | A2 | Gwella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd am ddiwygiadau lles drwy wneud y canlynol:<br>• penodi aelodau a swyddogion arweiniol i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu arweiniad strategol mewn perthynas â'r diwygiadau lles a bod yn atebol am berfformiad; a<br>• sicrhau bod aelodau yn cael hyfforddiant digonol a briffiau rheolaidd ar y diwygiadau lles er mwyn gallu herio perfformiad a phenderfyniadau a chraffu arnynt. |
| | | A3 | Sicrhau bod perfformiad o ran y diwygiadau lles yn cael ei reoli'n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y cymdeithasau tai; a<br>• phennu mesurau i lunio barn ar effaith ehangach y diwygiadau lles. |
| | | A4 | Atgyfnerthu'r ffordd y caiff risgiau o ran y diwygiadau lles eu rheoli drwy greu un dull corfforaethol o weithredu sy'n cydgysylltu gweithgarwch ar draws y cyngor a gwaith gan eraill er mwyn rhoi digon o sicrwydd bod yr holl gamau angenrheidiol a phriodol i liniaru risg yn cael eu cymryd. |


| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A5 Ymgysylltu'n well â thenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr drwy wneud y canlynol:<br>• darparu cyngor a gwybodaeth reolaidd am yr opsiynau sydd ar gael iddynt ymdrin ag effaith ariannol y newid yn eu hamgylchiadau;<br>• hyrwyddo llinell gymorth 'Mae budd-daliadau yn newid'; a<br>• chynorthwyo'r tenantiaid hynny sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn benodol i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth rhanbarthol/cenedlaethol. |
| | | A7 Gwella'r ffordd y caiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn eu rheoli a'u defnyddio a gwella mynediad iddynt drwy:<br>• sefydlu polisi neu ganllaw clir i'r cyhoedd, sydd ar gael ar ffurf copi caled ac ar-lein, sy'n nodi polisi a threfniadau'r cyngor ar gyfer gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• diffinio'n glir y costau tai cymwys ac anghymwys a gaiff eu cwmpasu gan Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn ffurflenni cais, dogfennau polisi a thaflenni canllaw i ymgeiswyr;<br>• nodi'n glir y cyfnodau hwyaf/byrraf posibl y caiff y taliadau hyn eu talu;<br>• pennu a chyhoeddi'r amserlen y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dilyn wrth benderfynu ar geisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• cynnwys gwybodaeth mewn deunyddiau cyhoeddus ar bolisi'r cyngor ar yr hawl i adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniad a'r amserlenni a'r broses y dylid eu dilyn wrth benderfynu ar y rhain; a<br>• diffinio'n glir y grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn deunyddiau cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall y rheini sy'n ceisio cymorth, a'r asiantaethau sy'n eu cynorthwyo, asesu p'un a yw'r taliadau hyn yn opsiwn ymarferol i ddiwallu eu hanghenion ariannol a'u hanghenion o ran tai. |

# Atodiad 6 – Gwybodaeth ddefnyddiol am adnoddau'r Cyngor


## Cyfanswm Incwm Gros 2013-14





## Cyfanswm Incwm a Gwariant




## Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn 2010-11 i 2012-13




## Cyfanswm Gwariant Gros yn ôl maes gwasanaeth



Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru